

YSGOLION YR 21ain GANRIF



ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Paratowyd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (011/2018). Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod y wybodaeth ym mhob un o'r dogfennau yn gysylltiedig, a'r themâu ynddynt yn drawsbynciol.

Mae Adran 2.1 y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 yn cyfeirio at elfennau o ad-drefnu ysgolion sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Agor ysgol a gynhelir.
- Cau ysgol a gynhelir.

Mae'r cynnig hwn i uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. Bydd yr uno yn cael ei gyflawni trwy gau'r ddwy ysgol gynradd bresennol ac agor ysgol gynradd gymunedol newydd a mwy yn eu lle. Y cynnig yw bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir cyfagos (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Cynigir y bydd y ddwy ysgol bresennol yn cau, gan drosglwyddo'r disgyblion erbyn mis Medi 2026, fan bellaf.

Ymgynghorir ar y cynnig rhwng 10 Ionawr 2022 a 21 Chwefror 2022. Mae Dogfen Ymgynghori fanwl wedi cael ei rhoi i'r holl randdeiliaid penodedig. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned yn atodiad i'r brif ddogfen.

Y Cynnig

Y cynnig yw uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg trwy gau'r ddwy ysgol gynradd bresennol, ac agor ysgol gynradd gymunedol newydd a mwy yn eu lle. Cynigir y bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir cyfagos (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Bydd y dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd yn uno'r dalgylchoedd ar gyfer y ddwy ysgol bresennol. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed sydd angen addysg gynradd cyfrwng Saesneg ym mhentref Glyn-coch. Bydd ganddi nifer derbyn arfaethedig o 51 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, a chapasiti disgyblion cyffredinol o 360 (yn ogystal â'r meithrin). Amcangyfrifir y bydd y cynnig yn costio £9 miliwn. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hariannu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru trwy'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif.

Effaith ar y Gymuned

readDylid nodi ar hyn o bryd y pennir bod effaith y cynigion ar y gymuned yn gadarnhaol. Bydd y cynnig yn arwain at gael ysgol gynradd gymunedol gwbl hygyrch a newydd sbon, yn darparu amgylchedd dysgu gwell gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf yn cael eu hadeiladu yng nghalon y gymuned. Bydd cynnwys cyfleusterau cymunedol yn adeilad yr ysgol newydd, ynghyd â'r cyfleusterau chwaraeon ar safle'r ysgol, yn sicrhau bod y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad y gymuned yn gwella'n sylweddol o gymharu â'r trefniadau presennol.

Mae'r rhaniad presennol mewn darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Saesneg yng Nglyn-coch rhwng dwy ysgol mewn cyflwr gwael iawn, wedi eu lleoli dim ond 0.6 milltir ar wahân, yn anghynaliadwy. Mae amcanestyniadau niferoedd y disgyblion yn dangos, er y rhagwelir y bydd canran sylweddol o leoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Cefn ganran yn gyson dros y blynnyddoedd i ddod, amcenir y bydd Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn mynd y tu hwnt i'w chapasiti presennol yn gyson. Mae hyn yn dangos nad yw'r ysgolion yn addas ar wahân i fodloni'r galw lleol arfaethedig am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y blynnyddoedd i ddod, ac yn cefnogi'r achos i'w disodli ag ysgol gynradd fwy, sy'n fwy hyfyw yn addysgol, o faint priodol. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd adeilad newydd pwrpasol Ysgol yr 21^{ain} yn helpu'r ysgol newydd i feithrin amgylchedd dysgu sy'n meithrin ac yn cynorthwyo disgyblion a staff, a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Cynigir y dylid adeiladu'r ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir cyfagos (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn ysgol gymunedol gwbl hygyrch a chwbl integredig, yn cynyddu cyfleoedd i'r gymuned gyfan fanteisio ar y cyfleusterau newydd, i gryfhau perthnasoedd ac integreiddio'r ysgol yn llawn yn y gymuned. Bydd ardal ddynodedig yn cael ei dylunio o fewn yr ysgol ei hun er mwyn caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer timau chwaraeon, yn cynnwys ardal cae chwarae yn addas ar gyfer gemau tîm i ddisgyblion 8 oed ac yn hŷn, ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd ar gyfer chwaraeon, fel pêl-fasged a phêl-rwyd. Hefyd, mae'n ofynnol i ysgolion newydd gynnwys ardaloedd chwarae meddal, sydd fel arfer yn cynnwys gofod â glaswellt i ddisgyblion eistedd a chymdeithasu, ynghyd â meysydd chwarae ag arwynebedd caled a gofod cysgodol i ychwanegu at yr ardaloedd chwarae meddal o gwmpas safle'r ysgol. Bydd yr ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardal ysgol goedwig a fydd yn ofod ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, ac yn darparu adnodd addysgu a dysgu gwerthfawr i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Hefyd, bydd yn darparu cyfleoedd dysgu gydol oes trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hyrwyddo cyflwyno gweithgareddau diwylliannol, ac yn darparu mynediad at gyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf a fydd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr lleol o bob oedran gyflawni eu llawn botensial.

Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae mwy o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Newidiadau i Ddalgylchoedd

Mae'r cynnig yn ceisio gwella'r adeiladau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion oddi mewn i ddalgylchoedd Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg sydd angen addysg gynradd cyfrwng Saesneg. Bydd y dalgyrch ar gyfer yr ysgol newydd yn golygu proses syml i uno'r dalgylchoedd presennol ar gyfer y ddwy ysgol bresennol.

Ar hyn o bryd, mae 63% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cefn yn byw yn y dalgyrch, a'r ffigur cyfatebol ar gyfer Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yw 54%. Mae hyn yn dangos gorgyffwrdd sylweddol eisoes ble mae disgyblion sy'n byw yn nalgyrch Ysgol Gynradd Cefn yn mynychu Ysgol Gynradd Craig yr Hesg ac i'r gwrthwyneb; ar hyn o bryd, mae 25% o ddisgyblion sy'n byw yn nalgyrch Ysgol Gynradd Cefn yn mynychu Ysgol Gynradd Craig yr Hesg, tra bod 13% sy'n byw yn nalgyrch Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn mynychu Ysgol Gynradd Cefn.

Rhagwelir y gallai amgylchedd dysgu'r 21^{ain} Ganrif yn yr ysgol newydd hefyd annog mwy o rieni / gofalwyr sy'n dewis anfon eu plant i ysgolion y tu allan i Lyn-coch ar hyn o bryd ddewis ysgol newydd y dalgyrch. Bydd capasiti cynyddol yr ysgol newydd yn golygu bod yr holl ddisgyblion a hoffai gael lle yn yr ysgol newydd yn gallu cael eu derbyn yno.

Goblygiadau o ran cludiant a theithio

Gosodir dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' diogel i'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn berthnasol i ysgol brif ffrwd Saesneg, Gymraeg, ysgol â dwy iaith, neu ysgol wirfoddol a gynorthwyr (ffydd) neu ysgol / dosbarth arbennig y dalgyrch, fel y bo'n briodol. Diffinnir y gyfraith sy'n ymwneud â 'phellter cerdded' diogel fel dwy filltir ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg gynradd, a thair milltir ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg uwchradd.

Mae'r Cyngor wedi arfer y pwerau dewisol a bennwyd iddo o dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i drefnu darpariaeth fwy hael ar gyfer disgyblion. Amlinellir y wybodaeth berthnasol ynghylch Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg isod. Bydd yr un meini prawf yn berthnasol i'r ysgol gynradd gymunedol newydd:

- Mae'r maen prawf cymhwyster ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n cael addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod fel 1½ milltir, yn lle 2 filltir, fel sy'n ofynnol gan y Mesur.

- Caiff cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, ble mae lleoedd ar gael, ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf cymhwyster 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu trydydd pen-blwydd), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pumed pen-blwydd), fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r term 'ysgol addas' yn berthnasol i ysgol brif ffrwd Saesneg, Gymraeg, ysgol â dwy iaith, neu ysgol wirfoddol a gynorthwyr (ffydd) neu ysgol / dosbarth arbennig y dalgylch, fel y bo'n briodol.

Nid yw unrhyw ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylchoedd Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol ar hyn o bryd. O ystyried pa mor agos yw'r ysgolion presennol a safle'r ysgol newydd arfaethedig, rhagwelir na fydd hyn yn newid pan fydd yr ysgol newydd yn agor. Mae'n anochel y bydd rhai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cefn ar hyn o bryd yn byw ymhellach oddi wrth y safle newydd, ac felly bydd eu taith i'r ysgol yn hirach. Fodd bynnag, bydd disgyblion eraill yn byw'n agosach at yr ysgol. At ei gilydd, ystyrir mai bach iawn fydd yr effaith ar drefniadau teithio dysgwyr.

Mae dau Ddosbarth Cymorth Dysgu, y darperir adnoddau ar eu cyfer gan yr awdurdod lleol, i ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol ac anawsterau ymddygiadol, wedi eu lleoli yn Ysgol Gynradd Cefn ar hyn o bryd. Mae un ar ddeg disgybl, sy'n rhannu pedwar tacs, yn defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol ar hyn o bryd i fanteisio ar y ddarpariaeth hon. Bydd y Dosbarthiadau Cymorth Dysgu yn trosglwyddo i'r ysgol newydd pan fydd yn agor. Bydd disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon yn parhau i ddefnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol at y diben hwn.

Bydd asesiad o'r effaith ar y traffig, yn ogystal ag archwiliad o'r llwybrau cerdded diogel i'r ysgol, yn cael ei gynnal, a bydd unrhyw welliannau a argymhellir i wella diogelwch disgyblion, staff, a rhieni / gofalmwr sy'n teithio i safle'r ysgol newydd yn cael eu gwneud. Mae safle'r ysgol newydd ychydig oddi ar y briffordd ac yn agos iawn at y llwybr bysiau gydag arhosfan ychydig y tu allan i ffin y safle, sy'n ei gwneud yn hygyrch iawn o safbwynt cludiant cyhoeddus hefyd.

Defnydd Presennol 'Y Tu Allan i Orlau Ysgol'

Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd y gweithgareddau cyn ac ar ôl yr ysgol a gynigir fel arfer yn Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn parhau i gael eu cynnig yn yr ysgol newydd. Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol yn cynnig Clwb Brecwast. Bydd hyn yn parhau i gael ei gynnig yn yr ysgol newydd. Yn y gorffennol, mae'r ddwy ysgol hefyd wedi cynnal amrywiaeth o glybiau ar ôl yr ysgol, yn cynnwys clybiau chwaraeon a choginio. Yn anffodus, o ganlyniad i bandemig Covid-19, nid yw'r rhain yn cael eu darparu ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, bwriedir y bydd gweithgareddau o'r fath ar ôl yr ysgol yn cael eu hailsefydlu yn yr ysgol newydd, ac yn ehangu ystod y gweithgareddau

a gynigir, o ganlyniad i'w chyfleusterau rhagorol, a fydd yn cynnwys cyfleusterau TGCh a chwaraeon o'r radd flaenaf.

Bydd defnydd y gymuned a thrydydd partïon o gyfleusterau'r ysgol newydd yn cael ei annog yn weithredol hefyd. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn ysgol gymunedol gwbl hygyrch a chwbl integredig. Bydd ardal ddynodedig yn cael ei dylunio o fewn yr ysgol ei hun a fydd yn caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, yn ystod y diwrnod ysgol, ac ar ôl hynny. Gallai hyn gynnwys dosbarthiadau dysgu gydol oes, grwpiau cymorth rhianta a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. O ystyried hygyrchedd a lleoliad amlwg y safle yng nghanol y gymuned, bydd hyn yn adnodd cynhwysol rhagorol ar gyfer y gymuned, ac o fudd i drigolion o bob oedran.

Effaith ar Iechyd a Lles

Bydd yr ysgol newydd yn amgylchedd addysgu a dysgu modern a lliwgar ar gyfer yr 21^{ain}. Ystyrir y bydd yr effaith ar iechyd a lles staff a disgyblion yn gadarnhaol o ystyried yr heriau a wynebier ar hyn o bryd ar safleoedd yr ysgolion presennol, a chyflwr gwael yr adeiladau presennol.

Bydd adeilad yr ysgol newydd yn addas at ei ddiben ac yn darparu ardaloedd addysgu a dysgu hyblyg i sicrhau bod y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Bydd y gofodau allanol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a lles staff a disgyblion, fel ei gilydd. Ar safle'r ysgol newydd, bydd gofodau chwarae newydd yn yr awyr agored, ystafell ddosbarth yn yr awyr agored, ardal ysgol goedwig ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd, a bydd pob ardal yn gwbl hygyrch.

Bydd y manteision cadarnhaol hyn i gymuned yr ysgol yn cael eu gwireddu yn y gymuned leol hefyd, gan y bydd y cyfleusterau hyn ar gael i'r gymuned eu defnyddio hefyd. Bydd yr ysgol yn cael cymorth i sefydlu cysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol i sicrhau bod y gymuned ehangach hefyd yn elwa ar y buddsoddiad cadarnhaol hwn.

Mae mwy o wybodaeth am sut mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at y saith nod lles a'r pum ffordd o weithio, fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Diogelwch Cymunedol

Credir bod effaith y cynigion ar ddiogelwch cymunedol yn gadarnhaol. Bydd safle'r ysgol newydd yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Sicrhawyd trwy Ddyluniad', a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu a'u gwarchod yn llawn â chamerau cylch cyfyng. Bydd y safle'n cael ei gau i mewn gan ffensys perimedr dros 2 fetr mewn uchder, gan rwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle y tu allan i oriau ysgol. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n

Ilwyr â'r sefyllfa bresennol yn y ddwy ysgol bresennol, ble mae unigolion yn cael mynediad at safle'r ysgol yn rheolaidd y tu allan i oriau ysgol, o ganlyniad i ffensys perimedr isel.

Bydd y cyfleusterau cymunedol yn yr ysgol newydd yn cael eu dylunio er mwyn gallu cael mynediad atynt yn ystod y diwrnod ysgol heb beryglu diogelwch y staff a'r disgyblion. Bydd maes parcio dynodedig ar y safle hefyd ar gyfer staff ac ymwelwyr, a rhoddir ystyriaeth i gyfleuster gollwng ar y safle.

Gan fod safle'r ysgol newydd yn agos at y ddwy ysgol bresennol, bydd perthnasoedd presennol â'r heddlu lleol a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn parhau.